



Adran Gwaith  
a Phensiynau



Office for  
Disability  
Issues

# Adroddiad Cynnydd 2019 ar weledigaeth y DU i greu cymdeithas sy'n cynnwys pobl anabl yn llawn

## Rhagair

Mae Llywodraeth y DU mor ymrwymedig ag erioed i greu cymdeithas sy'n gweithio i bawb, lle mae pawb yn cael ei gynnwys ac yn gallu cyfranogi'n llawn. Ledled y wlad rydym yn creu mwy o gyfleoedd i bobl anabl gyfranogi a ffynnu drwy nodi'r pethau mwyaf sy'n eu rhwystro rhag cyfrannu, a gwneud newidiadau er mwyn dileu'r rhain. Mae'r Llywodraeth hon yn awyddus i ddileu rhwystrau fel y gall pawb gymryd rhan mewn cymdeithas. Ein hagenda yw sicrhau bod pob person, ni waeth am ei anabledd, yn cael dewisiadau a rheolaeth dros ei fywyd ei hun ac yn gallu byw'r bywyd y mae'n ei ddewis.

Er mwyn adeiladu ar hyn, yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi lansiad dull trawslywodraethol newydd o ymdrin ag anabledd, dan arweiniad uned newydd yn Swyddfa'r Cabinet. Mae'r cam hwn yn rhoi anabledd wrth wraidd y Llywodraeth ac yn cydnabod bod pobl anabl yn wynebu rhwystrau mewn amrywiaeth eang o agweddau ar eu bywydau. Bydd yr uned newydd hon yn gweithio'n agos gyda phobl anabl er mwyn sicrhau bod profiad personol yn sail i gamau gweithredu rheolaidd a chydgyssylltiedig ym mhob rhan o'r Llywodraeth. Gwnaethom hefyd gyhoeddi gwaith i atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth ar anabledd a gwella gwaith ymgysylltu â phobl anabl a'u sefydliadau. Hefyd, mae ymgynghoriadau ar ddod ar safonau hygyrchedd, agweddau ar les a chanlyniadau defnyddwyr i bobl anabl.

Bydd y dull newydd hwn yn adeiladu ar y gwaith gwych sydd eisoes yn mynd rhagddo ledled y DU i barhau i ddileu rhwystrau fel y gall pawb gymryd rhan mewn cymdeithas. Fel y dengys yr adroddiad hwn, rydym yn helpu mwy o bobl anabl i gael gwaith ac yn galluogi pob plentyn i wireddu ei botensial mewn addysg. Rydym yn buddsoddi mewn system drafnidiaeth sy'n hygyrch i bawb. Rydym yn cynnig darpariaeth iechyd o'r radd flaenaf i bawb. Rydym yn paratoi'r ffordd i wneud chwaraeon yn hygyrch i bawb. Rydym yn galluogi mwy o bobl i ddefnyddio mannau cyhoeddus a mwynhau bywyd ac yn creu gwasanaeth cyhoeddus sy'n adlewyrchu'r gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu. Rydym hefyd yn gwella bywydau pobl anabl ledled y byd drwy ein gwaith datblygu rhyngwladol.

Yn ogystal, rydym wedi arwain newid mewn agweddau tuag at iechyd meddwl ac anableddau cudd. Rydym wedi buddsoddi'n drwm mewn gwella gwasanaethau iechyd meddwl ac ym mhob rhan o'r Llywodraeth rydym yn cydnabod anghenion pobl ag anableddau cudd wrth ddatblygu polisiâu newydd.

Mae'r adroddiad hwn yn ategu adroddiad ffurfiol y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar gyfer y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Dengys yr adroddiad ffurfiol sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio tuag at gyflawni ei gweledigaeth mewn amrywiaeth eang o faterion: darparu budd-daliadau, gofal cymdeithasol, buddsoddiad newydd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), gwaith parhaus i fynd i'r afael â throseddau casineb, ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn tanlinellu bod y DU yn gwrando ar randdeiliaid ac yn rhoi newidiadau ar waith.

Edrychaf ymlaen at weld cynnydd y flwyddyn nesaf, a rhannu'r datblygiadau hyn â'r Pwyllgor. Yn bennaf oll, edrychaf ymlaen at weld DU sydd yn cynnwys pobl anabl yn llawn.

**Justin Tomlinson AS**  
**Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith**

## Cynnydd ar weledigaeth y DU i greu cymdeithas sy'n cynnwys pobl anabl yn llawn

1. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i greu cymdeithas sy'n gweithio i bawb, lle mae pawb yn cael ei gynnwys ac yn gallu cyfranogi yn llawn. Mae'r adroddiad hwn yn tanlinellu peth o'r gwaith cadarnhaol a wneir ledled y DU ac yn adlewyrchu sut mae Llywodraethau Cymru, Lloegr a'r Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl anabl a sicrhau cyfranogiad llawn mewn cymdeithas.

### Cydraddoldeb wrth Wraidd Llywodraeth

2. Roedd y DU o blaid datblygu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ac yn un o'r gwledydd cyntaf i gytuno arno. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn darparu deddfwriaeth ar gydraddoldeb sydd ymhlith y gryfaf yn y byd er mwyn sicrhau bod pob person anabl yn byw heb wahaniaethu nac aflonyddu.
3. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus y Ddeddf 2010 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrf cyhoeddus i ystyried effeithiau polisïau ar bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig. Yn erbyn y fframwaith cyfreithiol cryf hwn, mae polisïau'n dal i gael eu llunio ym mhob rhan o'r Llywodraeth sy'n creu sylfaen gadarn ar gyfer cymdeithas sy'n gweithio i bawb. Mae enghreifftiau diweddar o waith trawslywodraethol yn cynnwys y canlynol:
  - Ym mis Mehefin 2019, lansiodd Llywodraeth y DU ddull trawslywodraethol newydd o ymdrin ag anabledd, a oedd yn ymwneud â sefydlu tîm newydd yn Swyddfa'r Cabinet, er mwyn llywio'r agenda hon o ganol y Llywodraeth. Gwnaethom hefyd gyhoeddi ymrwymiad i atgyfnerthu'r sylfaen dystiolaeth ar anabledd.
  - Sefydlwyd Grŵp Rhyngweinidogol newydd ar Anabledd a'r Gymdeithas yn ystod gwanwyn 2018 er mwyn llywio camau gweithredu cydgysylltiedig ym mhob rhan o'r Llywodraeth a rhoi Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau ar waith.
  - Er mwyn gwella gwaith ymgysylltu â phobl anabl a sefydliadau pobl anabl, rydym yn sefydlu Rhwydweithiau Rhanddeiliaid Rhanbarthol newydd yn Lloegr. Bydd y rhain yn casglu barn pobl anabl a'u sefydliadau mewn ardaloedd lleol er mwyn eu cynnwys yn y broses o lunio polisïau a gwasanaethau.
  - Rydym wedi penodi 18 o Hyrwyddwyr Sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o anghenion defnyddwyr anabl ac annog eu sectorau i wella hygyrchedd ac ansawdd eu gwasanaethau a'u cyfleusterau i bobl anabl.

## **Gwella Cyfleoedd Cyflogaeth**

4. Mae polisïau a mentrau cyflogaeth Llywodraeth y DU yn profi'n effeithiol wrth gyfrannu at dueddiadau cadarnhaol. Ein nod ar gyfer 2017 oedd sicrhau bod miliwn yn fwy o bobl anabl mewn gwaith erbyn 2027. Rhwng 2017 a 2019, cynyddodd nifer y bobl anabl mewn gwaith 404,000. Erbyn chwarter cyntaf 2019, roedd 3.9 miliwn o bobl anabl o oedran gweithio mewn gwaith yn y DU – ond mae gennym lawer mwy o waith i'w wneud.

## **Arloesedd o ran Cymorth i gael Gwaith**

5. Rydym am barhau i ddatblygu modelau effeithiol sy'n cefnogi pobl anabl i gael gwaith â thâl, a buddsoddi yn y modelau hyn. Ar hyn o bryd rydym yn buddsoddi yn y canlynol:
  - Menter gwerth £39m i ddyblu nifer y Cynghorwyr Cyflogaeth mewn gwasanaethau therapi llafar i bobl â phroblemau iechyd meddwl cyffredin;
  - Gweithio gyda'r GIG yn Lloegr i brofi a all Cymorth a Lleoliadau Unigol, model cymorth cyflogaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda i unigolion â salwch meddwl difrifol, wella canlyniadau iechyd a chyflogaeth i bobl â chyflyrau iechyd corfforol a chyflyrau iechyd meddwl ysgafn neu gymedrol.
  - Cronfa Her gwerth £3.9m sy'n canolbwyntio ar fentrau llai er mwyn gweithio gyda sefydliadau sy'n helpu pobl â chyflyrau iechyd meddwl a/neu gyhyrsgerbydol gyda'r heriau y maent yn eu hwynebu i gadw swydd;
  - Rhoi'r cyfle i hawlwr gael gafael ar gymorth personol yn y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn eu helpu i symud yn agosach at gael gwaith; a
  - Rhoi mwy o gymorth i gydweithwyr rheng flaen yn y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn helpu pobl anabl i ddatblygu.
6. Er mwyn parhau i ddysgu oddi wrth bobl anabl ac arbenigwyr am ffyrdd newydd o wella canlyniadau iechyd a chyflogaeth, ar 15 Gorffennaf lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad sylweddol ynghylch sut i leihau nifer y swyddi a gollir o ganlyniad i afiechyd. Y nod yw sicrhau bod y bobl hynny sydd ag anabledau a chyflyrau iechyd, neu sy'n datblygu anabledau a chyflyrau iechyd, pan fyddant mewn swydd yn cael y cymorth cywir, er mwyn eu galluogi i ffynnu a datblygu yn eu gyrfaedd.
7. Mae Llywodraeth yr Alban yn hyrwyddo egwyddorion Gwaith Teg. Lansiodd cynllun gweithredu yn gynnar yn 2019 sy'n nodi sut i hyrwyddo twf i gynnwys pawb, gan gynnwys pobl anabl. Ochr yn ochr â hyn, mae Cronfa Cydraddoldeb yn y Gweithle yr Alban yn helpu cyflogwyr i wneud newidiadau arloesol sydd o fudd i gyflogwyr a gweithwyr. Yn 2019/20, bydd y Gronfa yn ehangu i weithio gyda mwy o gyflogwyr er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau hirdymor yn y farchnad lafur, gan gynnwys rhwystrau i bobl anabl.

## Ymgysylltu â Chyflogwyr

8. Mae cyflogwyr yn helpu Llywodraeth y DU i gyflawni ein targed cyflogaeth ar gyfer pobl anabl. Mae'r gwaith rydym yn ei wneud gyda chyflogwyr yn hollbwysig i'r llwyddiant hwn:
  - Datblygwyd y cynllun Hyderus o ran Anabledd er mwyn annog a helpu cyflogwyr i recriwtio, cadw a datblygu pobl anabl. Erbyn mis Mai 2019, roedd tua 12,000 o gyflogwyr eisoes wedi ymuno â'r cynllun hwn, ac mae'r nifer hwnnw'n parhau i gynyddu. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn ddiweddar y bydd yn parhau i weithio gyda chyflogwyr er mwyn ceisio sicrhau bod 20,000 o gyflogwyr yn ymuno â'r cynllun dros y flwyddyn sydd i ddod. Gellir gweld llwyddiant y cynllun mewn arolwg o gyflogwyr Hyderus o ran Anabledd (Tachwedd 2018), sy'n awgrymu bod y cynllun Hyderus o ran Anabledd wedi cael effaith sylweddol ar arferion cyflogaeth o ran anabledd. Dywedodd 49% o'r cyflogwyr a gwblhaodd yr arolwg eu bod wedi recriwtio o leiaf un person ag anabledd neu gyflwr iechyd o ganlyniad i'r cynllun, gan gynyddu i 66% ymhlith cyflogwyr mwy.
  - O ganlyniad i *Thriving at Work: a review of mental health and employers*, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi'r Fframwaith Hysbysu Gwirfoddol. Mae'r Fframwaith yn annog sefydliadau â mwy na 250 o gyflogeion i gofnodi a rhoi gwybod am anabledd, iechyd meddwl a llesiant yn y gweithle.

## Prentisiaethau Hygyrch

9. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gyflawni argymhellion Tasglu Maynard er mwyn ei gwneud yn haws i ddilyn prentisiaethau yn Lloegr. Rydym am weld cyfran y bobl ag Anawsterau a/neu Anableddau Dysgu (ADD) sy'n dechrau mewn gwaith yn cynyddu 20%, i fyny o linell sylfaen o 9.9% yn 2015/16 i 11.9% erbyn 2020. Rydym eisoes wedi gweld cynnydd o 10.3% yn 2016/17 i 11.2% yn 2017/18, felly rydym yn hyderus y byddwn yn cyrraedd y targed hwn. Er mwyn gwneud hyn, cyflwynwyd deddfwriaeth er mwyn caniatáu i'r gofynion Saesneg a Mathemateg ar gyfer prentisiaethau gael eu haddasu i lefel mynediad 3 i grŵp diffiniedig o bobl ag ADD. Rydym hefyd yn datblygu fersiynau hawdd eu darllen a sain o'n canllawiau ar brentisiaethau er mwyn helpu i hyrwyddo cynhwysiant.
10. Yn yr Alban, cyhoeddodd Skills Development Scotland Gynllun Gweithredu Cydraddoldebau ar gyfer Prentisiaethau yn 2015. Ers mis Ebrill 2017, mae prentisiaid ag anabledd wedi cael y lefel uchaf o gyllid Prentisiaeth Fodern ar gyfer y fframwaith o'u dewis hyd at ac yn cynnwys 29 oed. Dangosodd ystadegau blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019 fod 14.1% o'r bobl a ddechreuodd Brentisiaeth Fodern wedi nodi bod ganddynt anabledd neu gyflwr iechyd yn 2018/19 (2.8 pwynt canran yn uwch nag yn 2017/18).
11. Ym mis Rhagfyr 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun gweithredu ar anabledd, sef Prentisiaethau Cynhwysol. Noda gamau gweithredu ymarferol er mwyn dileu'r rhwystrau i bobl anabl sy'n ceisio manteisio ar y rhaglen brentisiaethau. Mae'r broses o roi'r cynllun ar waith wedi dechrau a rhoddir gwybod am y cynnydd bob blwyddyn.

## **Addysg Gynhwysol**

12. Mae gan Lywodraeth y DU yr un weledigaeth i blant a phobl ifanc anabl ag i bawb arall: eu galluogi i wireddu eu potensial mewn addysg, a mynd ymlaen i fyw bywydau hapus a bodlon. Mae Llywodraeth y DU yn canolbwyntio ar ddileu'r rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad mewn addysg i blant ag anawsterau dysgu.

## **Diwygio Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau**

13. Y diwygiadau o ran anghenion addysgol arbennig ac anableddau a gyflwynwyd drwy Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 oedd y mwyaf ers cenedlaeth. Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi rhoi £391m i ardaloedd lleol er mwyn cefnogi'r broses o roi'r dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf ar waith. Er mwyn sicrhau cysondeb ledled Lloegr, ein ffocws yw gwella ansawdd cynlluniau Addysg, Iechyd a Gofal (i'r sawl ag anghenion cymhleth) a chymorth i anghenion addysgol arbennig ac anableddau mewn ysgolion a cholegau.
14. *Getting It Right For Every Child* (GIRFEC) yw dull gweithredu cenedlaethol yr Alban o wella llesiant plant a phobl ifanc. Mae Llywodraeth yr Alban a'i phartneriaid yn gweithio i fireinio'r deunyddiau i lywio a chefnogi ymarferwyr i gyflawni dull GIRFEC yn lleol. Bydd y gwaith i ddiweddarau canllawiau polisi GIRFEC yn helpu pawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau plant a theuluoedd i sicrhau bod diwyllianau, systemau ac arferion sefydliadol yn adlewyrchu uchelgais polisi cenedlaethol GIRFEC yn gywir.
15. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pecyn cyllid gwerth £20m er mwyn cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd y Rhaglen hon, a roddir ar waith ddechrau 2020, yn sicrhau y darperir ar gyfer pobl a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn system addysg gynhwysol.
16. Yng Ngogledd Iwerddon, bydd Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (Gogledd Iwerddon) 2016 yn cyflwyno dyletswyddau newydd ar gyfer yr Awdurdod Addysg ac ysgolion a hawliau newydd i'r plentyn. Caiff rheoliadau drafft yn seiliedig ar y Ddeddf eu cwblhau yn 2019 gyda Chod Ymarfer drafft a fydd yn rhoi canllawiau ymarferol i ysgolion; caiff y Rheoliadau a'r Cod eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad yn hwyr yn 2019. Darparwyd ychydig dros £4m i'r Awdurdod Addysg ers 2018/19 er mwyn rhoi'r hyfforddiant angenrheidiol i'r staff yn yr Awdurdod Addysg ac ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn barod am y broses o roi'r Fframwaith newydd ar waith fesul cam o 2020.

## **Cynnal Iechyd Meddwl**

17. Yn dilyn y Papur Gwyrdd *Transforming Children and Young People's Mental Health Provision*, mae Llywodraeth y DU yn sefydlu Timau Cynnal Iechyd Meddwl sy'n gysylltiedig ag ysgolion a cholegau yn Lloegr. Bydd hyn yn darparu ymyriadau i blant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl ysgafn neu gymedrol, yn ogystal â rhoi cymorth i'r staff mewn lleoliadau addysg, a bydd yn dechrau erbyn diwedd 2019.

18. Mae Llywodraeth yr Alban yn buddsoddi £20m dros y pedair blynedd nesaf er mwyn cyflogi mwy nag 80 o gynghorwyr ychwanegol ym maes Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae hefyd am weld cymorth cofleidiol i fyfyrwyr drwy gydol eu hastudiaethau.

### **Buddsoddi mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch**

19. Mae Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn sicrhau y gall myfyrwyr addysg uwch sydd angen mwy o gymorth arbenigol arnynt gael gafael ar gyfarpar, meddalwedd a chymorth personol. Mae ar gael i fyfyrwyr anabl ar gysiau Addysg Uwch ledled y DU. Ochr yn ochr â hyn:
- Caiff Comisiwn i Fyfyrwyr Anabl ei ddatblygu gan y Swyddfa i Fyfyrwyr er mwyn ymchwilio i'r rhwystrau y mae myfyrwyr anabl yn eu hwynebu mewn Addysg Uwch a gwella'r cymorth fel y byddant yn llwyddo.
  - Mae Cyngor Cyllido'r Alban yn helpu prifysgolion i gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn yr Alban. Rhoddodd Llywodraeth yr Alban £2.8m yn 2018/19 er mwyn cefnogi myfyrwyr anabl, gan alluogi sefydliadau a'r cysiau a ddarperir i fod yn fwy cynhwysol i'w myfyrwyr. Mae Cronfa Mynediad a Chynhwysiant gwerth £50.5m ar gael i golegau er mwyn eu helpu i sicrhau mynediad cyfartal i bob myfyriwr, gan gynnwys y sawl sydd angen cymorth iechyd meddwl.
  - Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r polisi Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei dargedu'n effeithiol.
  - Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Weithrediaeth yn rhoi £4.5m o gyllid ychwanegol i golegau bob blwyddyn drwy'r Gronfa Cymorth Ychwanegol, er mwyn cefnogi myfyrwyr ag ADD i gael Addysg Bellach.

### **Gwell Trafnidiaeth i bawb**

20. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i geisio creu system drafnidiaeth a fydd yn cynnig mynediad cyfartal i bawb erbyn 2030.

### **Strategaethau a Fframweithiau Cludiant Cynhwysol**

21. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Strategaeth Cludiant Cynhwysol ym mis Gorffennaf 2018 ac ers hynny mae wedi ymgysylltu â phobl anabl ar y broses o'i rhoi ar waith ac wedi sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Cludiant Cynhwysol. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth Fframwaith Monitro a Gwerthuso. Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaethom gyhoeddi'r Strategaeth Cludiant Cynhwysol – Crynodeb o Gynnydd, adroddiad ar rai o'r cerrig milltir arwyddocaol a gyflawnwyd a'n gwaith parhaus i gyflawni ymrwymadau'r Strategaeth.
22. Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd yr Adran Trafnidiaeth fanylion y 73 o orsafoedd trenau a fydd yn derbyn cyfran o'r £300m ychwanegol a ymrwymwyd i'r rhaglen Mynediad i Bawb sy'n darparu gwelliannau hygrychedd. Caiff £2m arall ei fuddsoddi yn y gwaith o adeiladu mathau mwy hygrych o doiledau mewn gwasanaethau traffyrdd, a elwir yn "*Changing Places*". Mae'r Papur Gwyrdd

*Aviation 2050* yn cynnig Siarter newydd i Deithwyr sy'n canolbwyntio ar anghenion teithwyr anabl ac a fydd yn datblygu safonau newydd lle y bo angen.

23. Yn ategu hyn mae tri Hyrwyddwr Sector (sy'n gweithio ym mhob rhan o'r rhwydweithiau bysiau, trenau a meysydd awyr) sy'n rhannu arfer da fel y bydd mwy o ddarparwyr trafndiaeth yn ystyried anghenion teithwyr anabl yn eu sectorau.
24. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cysylltu â sefydliadau pobl anabl ac eraill er mwyn cydgynhyrchu *Going Further*, sef Fframwaith Teithio Hygyrch yr Alban. Mae'r Fframwaith 10 mlynedd hwn a gyhoeddwyd yn 2016 yn nodi gweledigaeth a chanlyniadau'r Alban ar gyfer teithio hygyrch. Ym mis Mehefin 2019, cyhoeddwyd y cynllun cyflawni blynyddol cyntaf, gan nodi blaenoriaethau penodol ar gyfer 2019/2020.
25. Mae Fframwaith newydd Llywodraeth Cymru – Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol yn cynnwys ymrwymiad i wella hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus i bobl anabl. Mae'n monitro boddhad teithwyr â gorsafoddedd trenau, yn sicrhau bod pob gorsaf newydd ac ar ei newydd wedd wedi'i dylunio drwy ddilyn egwyddorion y model cymdeithasol o anabledd ac yn monitro hygyrchedd gwasanaethau bysiau lleol.
26. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn cwblhau adolygiad sy'n edrych yn benodol tuag at ddyfodol hirdymor y sector rheilffyrdd. Bydd yr adolygiad yn ystyried sut i flaenoriaethau buddiannau'r teithwyr, gan gynnwys sut i sicrhau bod y rheilffyrdd yn fwy hygyrch i bob un o'u defnyddwyr posibl.

### **Cynllun y Bathodyn Glas**

27. Mae Llywodraeth y DU yn awyddus i sicrhau bod y cynllun Bathodyn Glas yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth ganiatáu i bobl anabl yn Lloegr gynnal eu hannibyniaeth trwy gonsesiynau parcio cenedlaethol arbennig. Credwn na ddylai'r cynllun Bathodyn Glas wahaniaethu mewn egwyddor rhwng namau neu gyflyrau corfforol ac anghorfforol. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad maniffesto'r Llywodraeth i roi parch cyfartal i gyflyrau iechyd meddwl a chorfforol.
28. Mae'r rheolau cyfredol yn cofleidio'r holl gyflyrau, yn gorfforol neu fel arall, ond daeth yn amlwg i ni nad yw'r awdurdodau lleol yn deall y rheoliadau a'r canllawiau'n glir. Efallai y bydd pobl ag anableddau "cudd" yn ei chael yn anodd cael gafael ar Fathodynau, er bod eu cyflwr yn achosi anawsterau sylweddol iawn iddynt wrth fynd ar daith. Felly, gwnaethom gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddarau ym mis Mehefin 2019 i awdurdodau lleol ymestyn y cynllun a galluogi asesu cymhwysedd pobl ag anableddau nad ydynt yn gorfforol (cudd). Y newid hwn yw'r un mwyaf ers bron 50 mlynedd gyda'r meini prawf estynedig yn dod i rym ar 30 Awst 2019, ac mae'r Llywodraeth yn rhoi £1.7m yn ychwanegol yn 2019/20 i awdurdodau lleol er mwyn gweinyddu'r cynllun.

### **Darpariaeth Iechyd o'r Radd Flaenaf**

29. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth iechyd gorau yn y byd, gan adeiladu ar egwyddorion arweiniol y GIG: bod mynediad at ofal



iechyd yn seiliedig ar angen yn hytrach na'r gallu i dalu, a bod gwasanaethau'n gynhwysfawr ac ar gael i bawb.

30. Yn 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth £20.5bn o gyllid ychwanegol i'r GIG yn Lloegr erbyn 2023/24. Mae Cynllun Hirdymor y GIG, a lansiwyd ym mis Ionawr 2019, yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Un ohonynt yw lleihau'r bwlch iechyd rhwng pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar bobl ag anabledau dysgu, awtistiaeth neu gyflyrau iechyd meddwl, er mwyn eu helpu i fyw bywydau cyflawn, iach ac annibynnol.

### **Dull Strategol o Ymdrin ag Awtistiaeth**

31. O ganlyniad i'r strategaeth drawslywodraethol 'Think Autism' yn 2014, caiff awtistiaeth ei diagnosiso'n well, mae mwy o ymwybyddiaeth o awtistiaeth mewn cymdeithas, ac mae mwy o sefydliadau'n gwneud addasiadau rhesymol i bobl ag awtistiaeth.
32. Mae Llywodraeth y DU yn adolygu'r Strategaeth 'Think Autism', er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas at y diben. Caiff y fersiwn hon o'r strategaeth drawslywodraethol i bob oedran ar awtistiaeth ei lansio erbyn diwedd 2019.
33. Yng Nghymru, mae'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn cefnogi pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Er mwyn gwella canlyniadau llesiant i bobl ag awtistiaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn gweithredu Cod Ymarfer ar Ddarparu Gwasanaethau Awtistiaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf (GIG) Cymru 2006.

### **Gwella Iechyd Meddwl**

34. Mae Cynllun Hirdymor y GIG yn ategu ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau parch cydradd at iechyd meddwl. Bydd y cyllid ar gyfer materion iechyd meddwl yn tyfu o leiaf £2.3bn y flwyddyn erbyn 2023/24, gydag ymrwymiad y bydd y cyllid i wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn tyfu'n gyflymach na chyllid cyffredinol y GIG a chyfanswm y gwariant ar faterion iechyd meddwl. Bydd hyn yn galluogi 380,000 yn fwy o oedolion i gael therapïau seicolegol a 345,000 yn fwy o blant a phobl ifanc i gael mwy o gymorth yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd y GIG hefyd yn cyflwyno targedau newydd ar gyfer amseroedd aros er mwyn sicrhau mynediad cyflym at wasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned i'r bobl sydd eu hangen, ac ehangu gofal mewn argyfwng.
35. Mae'r Llywodraeth yn edrych i ddiwygio ei Deddf Iechyd Meddwl fel bod gan bobl sy'n ddarostyngedig iddi fwy o ymreolaeth a dylanwad dros eu gofal. Adroddwyd ar adolygiad annibynnol i'r Ddeddf y llynedd. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi derbyn rhai o'i hargymhellion mewn egwyddor, gan gynnwys rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl, trwy ddogfennau dewis ymlaen llaw statudol newydd, i ganiatáu i bobl ddewis pwy all weithredu drostynt, a bwrw ymlaen ag argymhellion a wnaed gan yr adolygiad i fynd i'r afael â'r nifer anghymesur o bobl o grwpiau BAME sydd o dan orchymyn o dan y Ddeddf, gan gynnwys sefydlu fframwaith cydraddoldeb hiliol newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd

meddwl y GIG. Bydd y Llywodraeth yn ymateb yn llawn, gan gyhoeddi papur gwyn erbyn diwedd y flwyddyn.

36. Derbyniodd y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2019. Mae'r Ddeddf yn diwygio Deddf Galluedd Meddwl 2005 mewn perthynas â gweithdrefnau lle gellir amddifadu unigolyn o ryddid at ddibenion gofal neu driniaeth lle nad oes gan y person y gallu i gydsynio. Disgwylir i'r gweithredu digwydd ddiwedd 2020.
37. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni'r strategaeth drawslywodraethol 10 mlynedd 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' er mwyn gwella iechyd meddwl a llesiant i bobl o bob oedran. Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer 2019-2022 yn cael ei ddatblygu, a chaiff ei lywio gan y cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun 2016-2019.
38. Yng Ngogledd Iwerddon, deddfwyd y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) ym mis Mai 2016. Bydd ei cham cyntaf yn dechrau ym mis Hydref 2019 a bydd yn darparu fframwaith statudol er mwyn sicrhau y diogelir hawliau pobl.

### **Anableddau Dysgu**

39. Mae'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Pobl ag Anableddau Dysgu wedi'i llunio i sicrhau bod dysgu parhaus am achosion marwolaethau cynamserol pobl ag anableddau dysgu a sut i achub bywydau mwy o bobl. Mae'n rhoi darlun manwl o'r gwelliannau allweddol sydd eu hangen a hi yw'r sail dystiolaeth fwyaf yn y byd ar y mater hwn. Rydym hefyd yn ehangu'r rhaglenni i atal rhoi gormod o feddyginiaeth i bobl ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu'r ddau a chefnogi triniaeth a meddyginiaeth briodol ym maes pediatreg (STOMP-STAMP).
40. Yng Nghynllun Hirdymor y GIG rydym wedi ymrwymo i gyflwyno gofal mewn argyfwng a gwasanaeth amlddisgyblaethol arbenigol saith diwrnod. Bydd y timau cymunedol hyn yn cefnogi pobl yn agosach at eu cartrefi ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar ofal i gleifion mewnol fel y bydd nifer y bobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth sy'n gleifion iechyd meddwl mewnol yn llai na hanner y cyfanswm yn 2015 erbyn 2023/24.
41. Yn gynnar yn 2019 cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei fersiwn ddiweddaraf o'r strategaeth anabledd dysgu *The Keys to Life*. Mae pwyslais cryf ar newid diwylliant ac ymddygiad, ac ymrwymiad iddo, gan ategu hawl pobl ag anableddau dysgu i wneud dewisiadau am eu bywydau a chwarae rhan llawn yn eu cymunedau.

### **Cyfleusterau Hygyrch**

42. Er mwyn sicrhau bod Ystad y GIG yn wirioneddol gynhwysol, mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £2m yn y broses o ddarparu toiledau a chyfleusterau newid hygyrch *Changing Places*. Bydd hyn yn sicrhau y gall pobl ag anableddau dysgu a chorfforol dwys a lluosog ddefnyddio'r toiledau yn ddiogel ac yn gyfforddus mewn adeiladau ysbytai.
43. Ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban yng ngwanwyn 2019 ar ddarparu Toiledau *Changing Places* ar gyfer mathau penodol o adeiladau newydd mawr drwy

system safonau adeiladu'r Alban. Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig ac mae'n cael ei fireinio gan ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad.

44. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr opsiynau i gynyddu nifer y toiledau *Changing Places* a ddarperir mewn adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd, gan gynnwys newidiadau posibl i wariant grantiau a gofynion rheoliadau cynllunio/adeiladu.

## **Cynyddu Gweithgarwch Chwaraeon**

45. Y Gemau Paralympaidd yn Llundain yn 2012 oedd y trobwynt i ni o ran ysgogi'r genedl i feddwl am y galluoedd y tu ôl i'r anabled. Fel y nodwyd yn y strategaeth *Sporting Future*, mae Llywodraeth y DU yn benderfynol o sicrhau y gall pobl anabl fwynhau'r gamp neu'r gweithgaredd o'u dewis, boed hynny ar lawr gwlad neu ar y lefel elitaidd, yn ogystal â defnyddio lleoliadau chwaraeon.
46. Mae UK Sport yn buddsoddi £74.9m mewn 18 o gampau Paralympaidd haf ar gyfer Tokyo 2020, sef cynnydd o dros £2m ers Rio 2016. Mae UK Sport hefyd wedi buddsoddi £3.9m yng nghylch diweddar Gemau Paralympaidd y Gaeaf PyeongChang rhwng 2014 a 2018, sef cynnydd o dros £3m ers Sochi 2014.
47. Mae Sport England, cyngor chwaraeon cenedlaethol Lloegr, yn buddsoddi dros £250m dros bedair blynedd er mwyn mynd i'r afael ag anweithgarwch corfforol, dileu'r rhwystrau i gyfranogiad ac annog cyrff chwaraeon i wneud chwaraeon yn fwy hygyrch. Mae Sport England yn nodi bod 44.8% o bobl anabl yn egniol, gan adlewyrchu cynnydd graddol.
48. Mae Hyrwyddwr y Sector Gweithgarwch Corfforol yn gweithio gyda sefydliadau pobl anabl a chanolfannau chwaraeon er mwyn annog mwy o bobl anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon.
49. Drwy Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i Chwaraeon Anabled Cymru. Mae'r cyllid hwn yn galluogi gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol er mwyn annog cyfranogiad ar lawr gwlad; yn cefnogi datblygiad para-athletwyr sy'n gymwys am chwaraeon elitaidd; ac yn dylanwadu ar y sector i gynnwys pobl anabl.
50. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i'r holl chwaraeon a'r holl glybiau gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 er mwyn i bobl anabl allu defnyddio lleoliadau chwaraeon. Mae'r gwaith yn parhau ym mhob rhan o'r Llywodraeth, gyda rhanddeiliaid chwaraeon a grwpiau cefnogwyr pobl anabl, er mwyn sicrhau bod hygyrchedd lleoliadau chwaraeon i bobl anabl yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

## **Mannau Cyhoeddus Cynhwysol**

51. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod bod manau cyhoeddus anhygyrch, fel atyniadau i ymwelwyr a busnesau manwerthu, yn cyfyngu ar gyfranogiad pobl anabl mewn bywyd cymdeithasol, ac rydym yn bwriadu dileu'r rhwystrau hyn. Mae Adran 20 y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar bob sefydliad

i wneud addasiadau rhesymol er mwyn sicrhau bod pob gwasanaeth yn gynhwysol ac yn hygyrch i bobl anabl.

52. Mae sawl Hyrwyddwr Sector (gan gynnwys y sawl sy'n gyfrifol am y Celfyddydau a Diwylliant, Cefn Gwlad a Threftadaeth a Thwristiaeth) wedi bod yn gweithio i wella mynediad at leoliadau yn ogystal ag annog mwy o hyfforddiant i staff er mwyn croesawu ymwelwyr anabl yn well.
53. Mae VisitScotland yn cyhoeddi canllawiau sy'n rhoi cyngor ymarferol i fusnesau yn yr Alban. Mae'r canllawiau yn nodi arferion cynhwysol ar gyfer digwyddiadau, atyniadau a chyrchfannau i dwristiaid, er mwyn sicrhau y gall yr amrywiaeth ehangaf o gwsmeriaid gyfranogi.

### **Profiad Manwerthu Cynhwysol**

54. Er mwyn gwella profiad cwsmeriaid anabl o wasanaethau manwerthu, mae'r Gweinidog dros Bobl Anabl, Iechyd a Gwaith a Hyrwyddwr y Sector Manwerthu yn cyd-gadeirio Fforwm Manwerthu rheolaidd, a fu'n allweddol wrth ddatblygu "Dydd Mawrth Porffor", diwrnod siopa hygyrch cyntaf y DU. Dathlodd Dydd Mawrth Porffor 2018 bŵer y bunt borffor (h.y. pŵer gwario gwerth £249bn pobl anabl a'u teuluoedd) drwy ysgogi busnesau i wella eu harlwy i gwsmeriaid anabl ar eu gwefannau a thrwy hyfforddiant gwasanaethau cwsmeriaid. Cymerodd mwy na 750 o sefydliadau, gan gynnwys manwerthwyr a grwpiau eiddo manwerthu, ran yn Nydd Mawrth Porffor, ynghyd â 50 o sefydliadau anabled, a chymeradwywyd y diwrnod gan Lywodraeth y DU. Cynhelir Dydd Mawrth Porffor 2019 ym mis Tachwedd.
55. Bydd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol hefyd yn nodi cynlluniau i weithio gydag adrannau, rheoleiddwyr a rhanddeiliaid er mwyn gwella canlyniadau defnyddwyr i bobl anabl drwy ddatblygu metrigau er mwyn cymharu pa mor dda y mae cwmnïau'n darparu ar gyfer pobl anabl mewn marchnadoedd hanfodol.

### **Atyniadau Treftadaeth Cynhwysol**

56. Mae'r Llywodraeth yn buddsoddi yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr ac yn rhoi cyllid ychwanegol er mwyn sicrhau bod amgueddfeydd yn hygyrch ac yn cynnig rhaglenni sy'n croesawu pob ymwelydd. Mae'r cyllid yn galluogi amgueddfeydd i gynnal rhaglenni ar gyfer pobl ag anabledau a chyflyrau iechyd penodol, gan gynnwys rhaglenni sy'n ystyriol o ddementia a rhaglenni awtistiaeth, a theithiau tywys i ymwelwyr dall a rhannol ddall.
57. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid i wella gwybodaeth am hygyrchedd i ymwelwyr anabl sy'n chwilio am leoedd i aros ynddynt neu ymweld â nhw, a chyfeirio busnesau twristiaeth at fentrau sy'n gallu helpu i wella eu darpariaeth i ymwelwyr anabl. Gwneir gwaith ymchwil ar ymwelwyr, gan gynnwys ymgynghori â phobl anabl, mewn lleoliadau hanesyddol a henebion ledled Cymru er mwyn llywio strategaethau a pholisïau'r dyfodol ar hygyrchedd i ymwelwyr. Bydd dogfen ganllaw newydd yn esbonio sut i gynllunio a gwella mynediad at adeiladau rhestredig yng Nghymru i bawb.

58. Mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon yn cefnogi sefydliadau i wella mynediad pobl anabl at y celfyddydau. Mae'r sefydliadau hyn yn amrywio o ganolbwyntio'n llwyr ar y celfyddydau ac anabledd i restrau rhaglenni celfyddydol ehangach sy'n cynnal prosiectau sy'n canolbwyntio ar anabledd.

## **Cynyddu Amrywiaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus**

59. Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod manteision gwasanaeth cyhoeddus amrywiol a phenodiadau cyhoeddus sy'n cynrychioli cymdeithas, ac eisiau dileu rhwystrau fel y gall mwy o bobl gael mynediad at apwyntiadau cyhoeddus a chymryd rhan mewn gwasanaeth cyhoeddus.

## **Gwasanaeth Sifil Amrywiol**

60. Uchelgais Gwasanaeth Sifil y DU yw sicrhau mai ef yw cyflogwr mwyaf cynhwysol y DU ac mae cynnwys pobl ag anableddau yn rhan annatod o greu "Gwasanaeth Sifil o'r Radd Flaenaf". Felly, mae pob prif Adran Weinidogol wedi sicrhau statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd wedi'i achredu'n annibynnol o dan Gynllun Hyderus o Ran Anabledd Llywodraeth y DU. Mae Hyrwyddwr Anabledd y Gwasanaeth Sifil, Syr Philip Rutnam, yr Ysgrifennydd Parhaol yn y Swyddfa Gartref, hefyd wedi nodi ei weledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Sifil sy'n hyderus o ran anabledd ac yn gynhwysol. Mae'r prif flaenoriaethau yn cynnwys y canlynol:

- Parhau i wella addasiadau yn y gweithle;
- Ymgysylltu ag arweinwyr ar bob lefel, er mwyn creu diwylliant cynhwysol lle gall pawb ffynnu;
- Gwella'r cymorth presennol ar reoli iechyd meddwl;
- Gwella nifer y cydweithwyr anabl talentog sydd ar gael, gyda mwy o fynediad at gyfleoedd datblygu a gwella arferion recriwtio;
- Haneru'r bwch ymgysylltu rhwng staff anabl a staff nad ydynt yn anabl; a
- Monitro'r cynnydd tuag at dargedau'r Gwasanaeth Sifil i gynyddu llif staff anabl newydd i'r Uwch Wasanaeth Sifil.

61. Ymrwymodd y Strategaeth Cymdeithas Sifil y Llywodraeth i ddefnyddio ei phŵer prynu i ysgogi newidiadau cymdeithasol ac, ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd, yn y dyfodol, yn ystyried manteision cymdeithasol yn well wrth ddyfarnu ei chontractau. Prif amcan gweithgareddau masnachol y Llywodraeth fydd parhau i gyflawni'r canlyniad masnachol gorau ond mae'n gywir y dylai'r Llywodraeth gymhwyso ei gwaith comisiynu er mwyn cefnogi canlyniadau cymdeithasol allweddol. Mae'r dull newydd o ddarparu gwerth cymdeithasol drwy weithgareddau masnachol y Llywodraeth yn mynd ymhellach na Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 drwy ei gwneud yn ofynnol i adrannau Llywodraeth ganolog ystyried effaith gymdeithasol fel rhan o'r meini prawf dyfarnu, lle mae'r effaith gymdeithasol yn gysylltiedig â phwnc y contract ac yn gymesur â'r hyn a brynir.

62. Mae'r model 'ysgafn' newydd hwn yn diffinio amcanion masnachol y Llywodraeth hon ar gyfer gwerth cymdeithasol, gan ei fynegi o ran blaenoriaethau polisi strategol, ac mae'n cynrychioli'r safon ofynnol ar werth cymdeithasol rydym yn disgwyl i adrannau ei hystyried yn eu gweithgarwch prynu. Mae'r model newydd

yn cwmpasu amrywiaeth o ganlyniadau polisi â blaenoriaeth, gan gynnwys ar hygyrchedd a chynhwysiant yn y gadwyn gyflenwi, yn benodol er mwyn sicrhau bod cadwyni cyflenwi'n hygyrch i bob math o fusnes, gan gynnwys busnesau dan berchnogaeth neu arweinyddiaeth grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, megis pobl anabl. Yn ogystal â sicrhau bod busnesau yn y gadwyn gyflenwi yn annog y broses o gynyddu cynrychiolaeth pobl anabl yn y gweithlu.

### **Cefnogi Aelodau Anabl y Lluoedd Arfog**

63. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn llunio'r ffordd orau o reoli a chefnogi anghenion personél y Lluoedd Arfog sy'n cael eu diagnosisio â chyflwr sy'n neu newid eu bywyd neu'n cyfyngu ar eu bywyd. Sefydlwyd Rhwydwaith Cyflyrau Cronig ac Anabledd wrth Amddiffyn y Lluoedd Arfog (CanDiD) ym mis Mehefin 2018 er mwyn darparu addysg a chymorth i reolwyr, llunwyr polisïau, personél y lluoedd arfog a'u gofalwyr.
64. Mae *Defence Recovery Capability* yn bartneriaeth hynod lwyddiannus rhwng y Llywodraeth a'r trydydd sector. Mae'n darparu fframwaith sy'n rhoi'r cymorth priodol i alluogi pob aelod o'r lluoedd arfog sy'n cael ei glwyfo, ei anafu neu sy'n mynd yn sâl i ddychwelyd i'w ddyletswyddau'n effeithiol neu gael cymorth wrth drosglwyddo i fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog.

### **Gwella Mynediad at Swyddi Cyhoeddus**

65. Mae'r Llywodraeth wedi ailategu ei hymrwymiad i gynyddu amrywiaeth y sawl sy'n eistedd ar fyrddau cyrff cyhoeddus drwy gyhoeddi fersiwn fwy diweddar o'i Chynllun Gweithredu ar Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus ochr yn ochr â'i hymateb i adolygiad annibynnol i agor penodiadau cyhoeddus i bobl anabl, wedi'i arwain gan yr Arglwydd Holmes o Richmond.
66. Gan dderbyn egwyddor holl argymhellion yr Arglwydd Holmes, mae'r fersiwn hon o'r Cynllun Gweithredu ar Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus yn nodi map ffordd ar gyfer gwireddu uchelgais y Llywodraeth i agor penodiadau cyhoeddus, fel y bydd y sawl sy'n eistedd ar fyrddau cyrff cyhoeddus yn fwy cynrychioliadol o'r gymdeithas y maent yn ei gwasanaethu. Mae'n ymrwymo i wella ansawdd y data ar benodeion fel y gall benderfynu ar uchelgais y Llywodraeth ar gyfer nifer y bobl anabl a benodir i fyrddau fod erbyn diwedd 2020.
67. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda sefydliadau anabledd er mwyn helpu pleidiau gwleidyddol i gefnogi ymgeiswyr anabl yn well. Agorodd Cronfa EnAble Swyddi Etholedig, sy'n werth £250,000, ym mis Rhagfyr 2018, gan roi grantiau sy'n talu am dreuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd. Cefnogodd y Gronfa tua 40 o ymgeiswyr yn yr etholiadau lleol yn Lloegr ym mis Mai 2019 ac mae gwerthusiad annibynnol wedi'i gomisiynu. Ar ben hynny, yn gynharach eleni gwnaeth Llywodraeth y DU basio deddfwriaeth i eithrio treuliau sy'n gysylltiedig ag anabledd o gyfyngiadau gwario ymgeiswyr.
68. Mae Llywodraeth yr Alban yn ariannu'r gronfa Mynediad i Swydd Etholedig. Rhydd gymorth ariannol i bobl anabl sy'n sefyll am swydd etholedig gydag unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â nam. Yn 2019, mae Llywodraeth

yr Alban yn ariannu cynllun sy'n cefnogi pobl anabl i gysgodi aelodau bwrdd o gyfrff cyhoeddus.

69. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth amrywiaeth ar gyfer penodiadau cyhoeddus, sy'n edrych ar hygyrchedd y broses o wneud cais ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl.

## Datblygu Rhyngwladol Cynhwysol

70. Rydym yn benderfynol o wella bywydau pobl anabl nid yn unig yn y DU, ond mewn gwledydd sy'n datblygu hefyd drwy ein gwaith datblygu rhyngwladol a'n hymatebion dyngarol.
71. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) ei Strategaeth Datblygu sy'n Cynnwys Pobl Anabl gyntaf erioed. Mae'r Strategaeth pum mlynedd hon yn nodi sut i roi anabledd wrth wraidd gwaith datblygu rhyngwladol y DU, gyda ffocws cryf ar ymgysylltu â phobl ag anableddau a'u grymuso. Mae'n nodi tri maes trawsbynciol a fydd yn hollbwysig i gyflawni newidiadau:
- grymuso menywod a merched anabl;
  - mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu; a
  - sicrhau y gellir cael gafael ar dechnoleg fforddiadwy a hygyrch.
72. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod yr holl wariant ar gymorth datblygu swyddogol ym mhob rhan o'r Llywodraeth yn cynnwys pobl anabl yn fwy. Ond ni allwn greu'r newid hwn ar ein pen ein hunain. Ym mis Gorffennaf 2018, gwnaethom gynnal Uwchgynhadledd Anabledd Fyd-eang gyntaf erioed Llywodraeth y DU, mewn partneriaeth â'r Gynghrair Anabledd Ryngwladol a Llywodraeth Kenya. Cynyddodd yr Uwchgynhadledd y sylw byd-eang i gynnwys pobl anabl, gan sicrhau presenoldeb lefel uchel o blith llywodraethau a sefydliadau o bedwar ban byd, a chreu dros 170 o gyfresi o ymrwymadau newydd uchelgeisiol ar gyfer gwaith datblygu sy'n cynnwys pobl anabl.
73. Fodd bynnag, caiff llwyddiant yr Uwchgynhadledd ei fesur yn ôl y cynnydd a wneir yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Felly, mae'r Llywodraeth yn creu proses atebolrwydd er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yr Uwchgynhadledd yn dwyn ei gilydd i gyfrif ac yn sicrhau bod addewidion yn arwain at gamau gweithredu parhaol i bobl anabl. Ym mis Ebrill 2019, gwnaethom lansio proses hunanadrodd i lywio'r adroddiad monitro cyntaf a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni.
74. Mae'r DFID wedi lansio dwy raglen newydd er mwyn cynyddu mynediad at dechnoleg gynorthwyol. Ym mis Mawrth eleni, cyhoeddodd y DFID ei bod yn ehangu ei rhaglen AT2030 (technoleg gynorthwyol) a ddarperir drwy gonsortwm a arweinir gan *Global Disability Innovation Hub*. Mae'r cyllid ychwanegol gwerth £9.8m yn dod â chyfanswm y buddsoddiad yn y rhaglen i £19.8m, gyda 100% o arian cyfatebol o'r sector preifat, cyrff anllywodraethol, llywodraethau a sefydliadau eraill. Bydd y rhaglen bellach yn treblu ei heffaith, gan gyrraedd 9 miliwn o bobl ledled y byd drwy wella'r gallu i gael gafael ar dechnoleg



gynorthwyol sy'n newid bywydau (e.e. cadeiriau olwyn, cymhorthion clyw, bodau prosthetig, cynorthwywyr digidol personol a sbectol).

75. Mae'r DU hefyd yn aelod sefydlu o ATscale, y Bartneriaeth Fyd-eang ar gyfer Technoleg Gynorthwyol, y mae'r DFID wedi ymrwymo £20m yn gyhoeddus iddi. Bydd ATscale yn cyflwyno'r dulliau gweithredu sydd wedi llywio'r farchnad i Dechnoleg Gynorthwyol; mae'r rhain wedi'u defnyddio'n llwyddiannus dros y degawd diwethaf i dorri prisiau a chynyddu'r gallu i gael gafael ar nwyddau iechyd sy'n achub bywydau megis brechiadau a meddyginiaethau. Ar y cyd â llywodraethau eraill, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, sefydliadau pobl anabl a chyrrff anllywodraethol, bwriad ATscale yw sbarduno mynediad 500 miliwn o bobl at dechnoleg gynorthwyol erbyn 2030.
76. Mae Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i gynyddu gwaith rhyngwladol ar anabledau seicogymdeithasol ac iechyd meddwl. Cefnogir ymgyrch Amser i Newid i rannu ei dull gweithredu â gwledydd y Gymanwlad sydd ag incwm isel a chanolig, er mwyn datblygu eu dull cymunedol eu hunain o fynd i'r afael â stigma iechyd meddwl ar lawr gwlad, a chynyddu'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o brofiadau pobl â chyflyrau iechyd meddwl.

## **Casgliad**

77. Rydym wedi cymryd camau mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tuag at greu cymdeithas sy'n gweithio i bawb. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gwaith ledled y DU a datblygiadau ers adroddiadau'r DU yn 2018. Fodd bynnag, gellir gwneud mwy o hyd i ysgogi camau gweithredu ym mhob rhan o'r Llywodraeth er mwyn mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu. Bydd lansio'r dull trawslywodraethol newydd yn sicrhau bod y cynnydd yn parhau.